Polisi Parch a Pherthynas

Ffederasiwn y Ddraig

Ein pwrpas:

Ein pwrpas yw rhoi'r cyfle i bawb fod y gorau y gallant fod. Credwn y gallwn gyflawni llawer mwy drwy gydweithio mewn partneriaeth na thrwy weithio ar ein pennau ein hunain.

Ein gwerthoedd:

Dathlu Cymreictod

Rhoi teulu a chymuned yn gyntaf

Annog caredigrwydd, parch a chwrteisi

I fynnu rhagoriaeth

Gan roi cyfle cyfartal i bawb

Ein Gweledigaeth

Byddwn yn deulu o ysgolion blaengar ac arloesol, yn ymrwymo i ragoriaeth gan sicrhau fod ein gwerthoedd yn sail i bopeth yr ydym yn ei wneud.

Ymfalchiwn yn ein Cymreictod, ein diwylliant a'n dwy ieithrwydd. Drwy sicrhau addysg gyflawn, rhoi blaenoriaeth i ddatblygu perthnasau iach a darparu profiadau cyfoethog byddwn yn rhoi'r cyfle i bob unigolyn fod yn ddysgwr creadigol, annibynnol ac uchelgeisiol sy'n cyd- weithio'n hyderus mewn cymunedau diogel.

Creu dyfodol disglair

Cyflwyniad ac amcanion

Credwn fod gan bob plentyn yr hawl i deimlo'n ddiogel ac yn hapus mewn ysgolion sydd yn meithrin caredigrwydd, parch a chwrteisi er mwyn eu hannog i fod y gorau y gallant fod. Rydym yn gweithio'n galed er mwyn adeiladu, cynnal a gwella perthnasoedd o fewn yr ysgolion – disgyblion, staff, llywodraethwyr, teuluoedd, y gymuned a'r holl asiantaethau allanol. Rydym yn ysgolion adferol ac yn defnyddio dulliau adferol er mwyn sicrhau cysondeb. Mae'n bwysig i ni bod pob aelod o gymuned yr ysgol yn teimlo balchder o fod yn rhan o'r gymuned honno, ac yn teimlo'n aelod pwysig a gwerthfawr o'r tîm.

Cyflawni'r amcanion

- Bydd pob aelod o gymdeithas yr ysgol yn ymwybodol o gynnwys y polisi ac yn ymrwymo iddo.
- Defnyddir ddulliau adferol bob amser pan yn briodol gwneud hynny.
- Bydd rheolau'r ysgol (rheolau cytûn isod) yn cael eu dilyn bob amser yn yr ysgol ac ym mhob gweithgaredd ysgol (ee digwyddiadau CRA, tripiau, gweithgareddau chwaraeon, clybiadu ar ôl ysgol.)
- Bydd rheolau'r ysgol yn cael eu harddangos o amgylch yr ysgol.
- Byddwn yn trafod rheolau'r ysgol gyda'r disgyblion yn gyson, i sicrhau eu bod yn eu deall ac yn eu cofio.
- Er bod rheolau cytûn i'r ysgol, mae rheolau eraill, ee rheolau dosbarth, rheolau iard, rheolau addysg gorfforol, rheolau neuadd ginio, yn bodoli yn yr ysgol.

Rheolau cytûn

- **Byddwn yn siarad Cymraeg**
- **Byddwn yn dangos caredigrwydd, parch a chwrteisi tuag at bawb**
- **Byddwn yn parchu amgylchedd yr ysgol ac eiddo ein gilydd**
- **Byddwn yn cerdded yn yr ysgol**
- **Defnyddiwn lefel llais addas bob amser**

Disgwyliadau

Bydd yr oedolion:

- ✓ yn bendant eu barn (*assertive*) ac yn ddigynnwrf
- ✓ yn gyson ac yn glir
- ✓ yn dilyn y camau yn 'Perthnasau Iach yn Ffederasiwn y Ddraig' **(Atodiad 4)**
- ✓ yn deg
- ✓ yn sylwi ar blant (ee ymddygiad da a drwg, bathodyn penblwydd, os yw plentyn yn drist / dawel, iaith y corff, ymdrech) ac yn gweithredu ar hynny
- ✓ i gyd â'r un ffiniau a'r un disgwyliadau uchel
- ✓ yn gofyn am gymorth os oes angen – mae hyn yn arwydd o aeddfedrwydd, nid yw'n arwydd o wendid.

Bydd y plant

- ✓ yn dilyn rheolau'r ysgol
- ✓ yn deall am ddewisiadau a chanlyniadau
- ✓ yn gwneud y dewisiadau cywir bron bob amser
- ✓ yn dangos edifeirwch os yn gwneud rhywbeth yn anghywir

Bydd y rhieni:

- ✓ yn cefnogi'r ysgol
- ✓ yn gofyn i'r ysgol am gymorth os oes poblem, a pheidio mynd at deuluoedd eraill eu hunain
- ✓ yn gadael i'r ysgol wybod os oes unrhyw amgylchiadau yn y cartref fydd yn effeithio ar ymddygiad y plentyn
- ✓ yn defnyddio'r drefn gwyno os nad ydynt yn hapus gyda chanlyniad ymchwiliad yn ymwneud ag ymddygiad

Bydd pawb:

- ✓ yn gwrtais
- ✓ yn gwrando ar ei gilydd
- ✓ yn dangos parch i'w gilydd
- ✓ yn gosod esiampl dda (oedolion a phlant hŷn)

Ni fydd cymuned yr ysgol yn derbyn…

Gan oedolion:

- × ymddygiad ymosodol *(aggressive)*
- × bod yn anghyson
- × cweryla gyda phlant
- × labelu plant, dosbarthiadau neu flynyddoedd
- × ddim yn maddau i blant
- × dadlau a chweryla gydag oedolion eraill (rhieni gyda staff, rheini gyda rhieni yng ngolwg plant, staff gyda staff)
- × gadael sefyllfa pan nad yw wedi ei datrys

Gan oedolion a phlant:

- × bwlio
- × ateb yn ôl neu bod yn ddigywilydd
- × anghwrteisi
- × cam drin geiriol neu gorfforol o unrhyw fath (gan gynnwys galw enwau ac ymladd)
- × rhedeg yn yr adeilad
- × dangos amharch i bobl, eiddo neu'r amgylchedd
- × bod yn y lle anghywir ar yr adeg anghywir ar bwrpas
- × rhegi

1. Fframwaith Dulliau Adferol

Rydym yn anelu at adeiladu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol er mwyn creu'r ymdeimlad o gymuned. Pan fydd perthnasoedd yn gadarnhaol, rydym yn llai tueddol o niweidio ein gilydd, a thrwy hynny leihau gwrthdaro yng nghymuned yr ysgol. Byddwn yn anelu at gyd weithio i ddatrys problemau yn hytrach na dewis eu hanwybyddu. Byddwn yn gyson wrth ddefnyddio dulliau adferol gan sicrhau ymyrraeth gynnar er mwyn osgoi problemau dwys.

Adeiladu a chynnal perthnasoedd

Disgwylir i bob aelod o staff i ddefnyddio dulliau adferol. Golyga hyn adeiladu perthnasoedd cadarnhaol gyda'r plant, cydweithwyr, rhieni, gwarcheidwaid a chymuned ehangach yr ysgolion.

Ar ddechrau blwyddyn newydd

Ar ddechrau blwyddyn ysgol, cynhelir gweithgaredd 'anghenion dosbarth' ym mhob dosbarth. Mae'r plant yn trafod ac yn dod i benderfyniad ynglyn a pha anghenion sydd yn bwysig er mwyn iddynt wneud eu gorau yn yr ysgol. Dylid ail ymweld â'r anghenion yn gyson.

Yn Wythnosol

Defnyddiwn gylchoedd gyda'r plant o leiaf unwaith yr wythnos. Caiff y disgyblion gyfle i drafod lles, ac unrhyw broblemau sydd yn codi yn ogystal a thrafod gwaith ysgol. Yn ystod y sesiynau yma mae'r plant yn cael cyfle i fynegi barn a pharchu syniadau ei gilydd gan adeiladu perthnasoedd cadarnhaol a gwella cydweithredu. Athrawon sydd yn arwain y cylch yn arferol, ond rhoddir cyfle i aelodau'r Cyngor Ysgol a disgyblion eraill i arwain y cylch o bryd i'w gilydd.

Defnyddio Dulliau Adferol pan mae gwrthdaro yn digwydd

Pan mae plant yn dadlau neu'n cweryla disgwylir i bob aelod o staff ddefnyddio egwyddorion Dulliau Adferol wrth ddelio â'r mater ac rydym yn annog plant i ddefnyddio'r un drefn ymysg ei gilydd.

Pan yn siarad â phlant am ddigwyddiadau dylai bob sgwrs ddechrau gyda'r cwestiwn 'Beth ddigwyddodd?' er mwyn sicrhau ein bod yn deall yn union beth sydd wedi digwydd. Dylai staff ddefnyddio'r canllawiau**(Atodiad 1),** a defnyddio strwythur y 5 cwestiwn (gellir defnyddio pob cwestiwn, neu ambell gwestiwn – yn dibynnu ar y sefyllfa) pan yn delio â materion mwy difrifol:

1. Beth ddigwyddodd?
2. Beth oeddet ti'n ei feddwl? Sut oeddet ti'n teimlo?
3. Pwy sydd wedi ei effeithio, a sut?
4. Beth sydd angen arnat ti i deimlo'n well?
5. Beth wyt ti eisau i ddigwydd nawr er mwyn symud ymlaen?

Mae plant Blynyddoedd 5 a 6 sydd yn aelodau o'r tîm Clustiau Caredig / Llais Llesol yn aelodau blaenllaw o'r tîm adferol. Maent yn gwrando a thrafod gofidion sydd gan blant, gan gynnig gwahanol ffyrdd o ddatrys y broblem. Os nad ydynt yn gallu delio â'r broblem maent yn troi at aelod penodol o staff yr ysgol i ofyn am gyngor.

Pan fyddwn yn cwrdd ag aelodau teulu, gofalwyr ac asiantaethau allanol, defnyddiwn feddylfryd adferol wrth drin a thrafod.

2. Rhoi clod am ymddygiad da

Byddwn yn sylwi ar ymddygiad da ac yn rhoi clod er mwyn annog y plant i fod yn ystyriol o eraill ac i gydymffurfio â rheolau'r ysgol.

- Bydd pob athro dosbarth yn sefydlu trefn clod yn ei d/ddosbarth ee Dojos, tocynnau raffl, sticeri ayyb.
- Rhoi clod ar lafar. Dyma'r ffordd mwyaf effeithiol o roi clod i blentyn, sef dangos gwerthfawrogiad ar lafar – drwy ddweud 'da iawn' a 'diolch yn fawr'.

3. Pan na fydd ymddygiad yn dderbyniol

Os ydy aelodau staff yn gweld ymddygiad nad yw cymuned yr ysgol yn ei dderbyn, bydd y canllawiau(**Atodiad 1)** yn cael ei ddefnyddio. Bydd aelodau staff yn dewis y strategaeth mwyaf addas yn ddibynnol ar allu ac oedran y plentyn ac ar natur y camymddwyn. Gellir defnyddio un neu fwy strategaeth ar y tro. Defnyddir y canllawiau ar **bob** achlysur.

Os yw plentyn yn camymddwyn gellir rhoi cosb fer yn y fan a'r lle – ee gofyn i blentyn eistedd ar ei ben ei hun i orffen ei dasg, clirio llanast mae wedi ei greu, cytuno ar gamau dilynol gyda'r plentyn, gofyn i blentyn gerdded gydag aelod o staff ar ddyletswydd amser chwarae / cinio, gofyn i blentyn eistedd ar fainc am ychydig funudau ar yr iard, symud y plentyn oddi wrth ei ffrindiau i fwyta ei ginio. Ni ddylid rhoi plentyn i sefyll yn erbyn wal fel bod pawb yn gweld ei fod wedi camymddwyn. Os yw ymddygiad plentyn yn ddigon drwg i'w anfon o'r dosbarth mae'n rhaid galw ar aelod o uwch dim rheoli'r ysgol.

Bydd amser myfyrio yn cael ei ystyried yn gosb ar ôl camymddwyn difrifol. Bydd amser myfyrio yn cael ei adrodd i rieni.

Bydd yr ymddygiad yn cael ei gategoreiddio yn ddibynnol ar pa mor ddifrifol yw'r achos. Mae unrhyw gamymddwyn o gategori 2 ac uwch yn cael ei ystyried yn ddifrifol, a chategori 3 a 3+ yn ddifrifol iawn. Bydd yr amser myfyrio yn amrywio o ran hyd, yn ddibynnol ar oedran y plentyn a natur y camymddwyn. Bydd aelodau'r UDRh yn gyfrifol am yr amser myfyrio.

Mae'r tabl yn **Atodiad 2** yn dangos y gwahanol gategorïau o ymddygiad annerbynniol a phwy sydd yn gyfrifol am ddelio â'r disgyblion

Pan yn delio â ymddygiad annerbynniol categori 2 neu uwch rhaid cofnodi ar y Daflen Cofnodi Ymddygiad (**Atodiad 3**.)

[Nid yw gorffen gwaith yn gosb sydd yn rhan o'r polisi hwn. Os oes angen cwblhau gwaith a bod yr athro eisiau i'r gwaith gael ei gwblhau yn ystod amser chwarae, yna bydd angen i'r athro dosbarth aros yn y dosbarth gyda'r plentyn.]

4. Beth os nad yw ymddygiad plentyn yn gwella o ganlyniad i'r polisi?

Os yw ymddygiad plentyn yn achosi pryder ac os nad yw dilyn y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol ar yr ymddygiad annerbynniol yna byddwn yn delio â'r plentyn yn ddibynnol ar yr achos unigol, gan amlaf gan ddilyn y camau yng ngweithdrefnau ADY y ffederasiwn a cheisio cefnogaeth gwasanaethau addas i helpu'r plentyn a'r teulu. Mae'n bosibl addasu'r polisi ar gyfer y plentyn ac efallai bydd ganddo asesiad risg personol wedi ei gytuno â'r athro dosbarth, y Pennaeth Cynorthwyol–Cynhwysiant a'r Pennaeth Mewn Gofal. Bydd y rhieni yn rhan o'r broses yma o'r dechrau er mwyn i'r ysgol a'r rhieni gefnogi ei gilydd i helpu'r plentyn.

5. <u>Gwahardd</u>

Dilynnir canllawiau Llywodraeth Cymru, 'Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion' – dogfen rhif 171/2015, sy'n datgan hawl y Pennaeth i wahardd plentyn os yw yn credu fod hynny'n briodol.

6. **<u>Cwynion</u>**

Os nad yw rhieni yn hapus gyda'r broses o reoli ymddygiad yn y ffederasiwn, dylid dilyn y polisi cwyno. Mae copiau o'r polisi cwyno ar gael o swyddfa pob ysgol ac ar y wefan.

Atodiad 1

Canllawiau delio ag ymddygiad annerbyniol

Os ydy aelodau o staff yn gweld ymddmdygiad nad yw cymuned yr ysgol yn ei dderbyn, bydd y canllawiau yma yn cael eu dilyn. Bydd staff yn dewis y strategaeth mwyaf addas yn ddibynnol ar allu ac oedran y plentyn ac ar natur y camymddwyn. Gellir defnyddio un neu fwy strategaeth ar y tro. Defnyddir y canllawiau yma ar **bob** achlysur.

Dylid defnyddio strategaeth 1 bob tro mae plentyn yn gwrthod cydymffurfio.

Strategaeth1 – **Rhoi cyfarwyddyd ac ailadrodd**

Os nad yw plentyn yn cydymffurfio egluro bod angen iddo gydymffurfio gan roi cyfarwyddyd - “dwi angen i ti _____, diolch”, rhoi amser iddo i gydymffurfio ac yna ailadrodd i atgoffa. (Nid ydym yn gofyn i blentyn gydymffurfio ee ”os gweli di’n dda nei di eistedd i lawr” gan fod hyn yn rhoi’r opsiwn i’r plentyn eistedd neu beidio).

e.e. os nad yw plentyn yn gwneud ei waith dweud “dwi angen i ti wneud dy waith, diolch” ac yna symud i ffwrdd i roi cyfle iddo gydymffurfio. Os nad ydy hyn yn gweithio ei atgoffa “cofia bod angen i ti wneud dy waith”, rhoi amser ac yna ei atgoffa eto, ac yn y blaen.

Strategaeth 2 – **Ymarfer**

Os nad yw plentyn yn cydymffurfio dylid ymarfer yr ymddygiad cywir.

e.e. os yw pletnyn yn gwrthod eistedd, yna dweud y bydd angen iddo ymarfer yn nes ymlaen. Dewis amser addas, er enghraifft cyn mynd allan i chwarae neu cyn mynd i gael cinio, ac ymarfer cyflym – y plentyn i eistedd yn ei gadair. Mae dewis yr amser cywir yn hollbwysig – ymarfer cyn i’r plentyn gael mynd i wneud rhywbeth mae wir eisiau ei wneud!

Strategaeth 3 **- Dewis**

Pan mae plentyn yn gwrthod gwneud yr hyn mae fod i’w wneud, rhoi dau ddewis iddo.

e.e. os yw plentyn yn gwrthod gwneud ei waith, yna rhoi dewis – unai i wneud ei waith, neu mynd i eistedd yn y gornel ddarllen i dynnu llun. Mae cynnig y dewisiadau cywir yn hollbwysig. Nid oes pwrpas rhoi dewis o ddau beth nad yw’r plentyn eisiau eu gwneud, rhaid bod y plentyn yn fodlon gwneud yr ail ddewis...ond yr athro sydd wedi ei gynnig. Rhaid rhoi dau ddewis caeedig, hynny yw gwneud gwaith neu mynd i’r gornel ddarllen i dynnu llun, ddim mynd i’r gornel ddarllen i wneud unrhywbeth mae eisiau.

Strategaeth 4 – **Cytundeb Llafar**

Trafod gyda’r plentyn beth sydd yn mynd i ddigwydd nesaf – unai pan yn cael gwobr neu pan mae’n gwrthod gwneud rhywbeth.

e.e. “gei di dynnu llun nawr, pan mae’r amserydd yn gorffen mae angen dod i eistedd wrth y bwrdd. Diolch”

Strategaeth 5 – **Atgoffa**

Os yw plentyn yn cael trafferth i ymddwyn yn ystod gweithgaredd arbennig, yna ei atgoffa o’r hyn sydd yn ddisgwyliedig **cyn** y weithgaredd.

e.e. os yw plentyn yn dueddol o redeg i’r neuadd i gael cinio a gweiddi, dweud “dwi angen i ti gerdded i’r neuadd a siarad yn dawel. Diolch.”

Strategaeth 6 – **Dweud ‘da iawn’ neu ‘diolch’**

Hyd yn oed pan mae plentyn yn camymddwyn dod o hyd i rywbeth gellid dweud ‘da iawn’ neu ‘diolch’ wrtho. Er enghraifft, os yw plentyn yn eistedd ac yn gwrthod dod i’r neuadd ar gyfer y gwasanaeth dweud “da iawn ti am eistedd yn smart”

Srategaeth 7 – **Trafod yr ymddygiad**

Pan mae’r amser yn iawn egluro i’r plentyn eich bod wedi sylwi ar yr hyn mae yn ei gael yn anodd i’w wneud.

e.e. os yw plentyn yn ei chael yn anodd i beidio taro plant eraill wrth eistedd ar y carped, pan yn gwneud rhywbeth arall gyda’r plentyn, ee chwarae gyda lego, dweud “dwi wedi sylwi dy fod yn cael trafferth i eistedd yn smart ar y carped”

Strategaeth 8 – **“....a nawr”** (yn hytrach na ‘ond’)

Os yw plentyn wedi bod yn taro plentyn arall amser chwarae dweud “dwi’n gwybod beth sydd wedi digwydd yn ystod amser chwarae **a nawr** dwi angen i ti ddod mewn i’r dosbarth ac eistedd yn dawel”

Mae hyn yn dangos nad ydych wedi anghofio am yr ymddygiad drwg.

Categorïau o Ymddygiad

Categori	1	2	3	3+
Pwy sy'n delio â'r sefyllfa	**Unrhyw oedolyn** yn ymchwilio ac yn delio â digwyddiad. Yn cyfeirio at **athro dosbarth** os oes pryder.	**Arweinydd Cynnydd** yn dilyn ymchwiliad gan **unrhyw oedolyn**	**Pennaeth Mewn Gofal (neu pwy bynnag sydd yn gyfrifol am yr ysgol yn ei h/absenoldeb)** yn dilyn ymchwiliad gan **unrhyw oedolyn**	**Pennaeth (neu pwy bynnag sydd yn gyfrifol am yr ysgol yn ei absenoldeb)** yn dilyn ymchwiliad gan **unrhyw oedolyn**
Math o ymddygiad	• Ddim yn gwrando • Ddim yn cydymffurfio • Rhedeg yn y coridor • Chware o gwmpas yn y tŷ bach • Bod yn y lle anghywir ar yr amser anghywir • Siarad ar y carped • Siarad yn ystod gwasanaeth • Chwarae anaddas ar yr iard • Ateb yn ôl • Anghwrteisi (ee galw enwau, iaith anaddas) • Cam-drin geiriol lefel isel • Ymddygiad corfforol amhriodol (ee cydio, baglu, pinsio) • Chwarae ymladd • Os oes anaf, rhoi gwybod i'r ddau set o rieni.	• Achos difrifol neu gyson o Gategori 1 • Ymddygiad ymosodol wedi ei ysgogi (provoked aggression) • Rhegi • Cam drin geiriol (galw enwau neu gam-drin sy'n cynnwys unrhyw derminoleg hiliol, rhywiaethol, homoffobig neu anabledd)	• Ymddygiad ymosodol heb ei ysgogi (unprovoked aggression) • Rhegi difrifol • Difrodi eiddo'r ysgol neu eiddo eraill • Ymddygiad ymosodol corfforol heb ei ysgogi / trais (gan gynnwys bwlio corfforol)	• Unrhyw ddigwyddiad sydd yn rhoi'r plentyn neu eraill mewn perygl o anaf difrifol neu farwolaeth
Canlyniad Posibl	• Defnyddio'r Canllawiau • Os oes pryder cofnodi ar MyConcern a/neu thrafod â rhieni	• Defnyddio'r Canllawiau • Os oes pryder cofnodi ar MyConcern a/neu thrafod â rhieni • Amser myfyrio os yn briodol • Cofnodi ar y daflen bwrpasol	• Defnyddio'r Canllawiau • Cysylltu â rhieni • Cofnodi ar MyConcern • Amser myfyrio • Gwahardd mewnol • Gwahardd o'r ysgol • Cofnodi ar y daflen bwrpasol	• Rhoi gwybod i rieni'r plant sydd wedi eu heffeithio • Ystyried gwahardd am gyfnod penodol neu yn barhaol • Gofyn am gyngor gan arbenigwyr / swyddogion y Sir os oes angen.
	DELIR GYDA PHOB ACHOS YN UNIGOL			

Taflen Gofnodi Ymddygiad

Enw	Dyddiad	Natur y Camymddwyn	My Concern (√)	Siarad â Rhieni (√)	Ymateb Rhieni (os yn berthnasol)	Pwy sy'n cofnodi

Atodiad 4

Perthnasau Iach yn Ffederasiwn y Ddraig

- Rydym yn dathlu llwyddiannau trwy ganmol, defnyddio systemau gwobrwyo ac mewn gwasanaethau ysgol gyfan.

- Mae ganddom ddisgwyliadau uchel ac rydym yn cyfleu hynny'n glir i'r disgyblion

- Rydym yn parchu hawliau pawb ac yn fodelau rol ardderchog wrth annog disgyblion i ddangos parch a goddefgarwch at bawb.

- Rydym yn fodelau rôl wrth ddefnyddio lefel llais priodol a siarad yn barchus ac yn gwrtais ag eraill

- Rydym yn sicrhau bod y disgyblion yn symud o gwmpas yr ysgol yn dawel, yn drefnus ac yn ddiogel

- Rydym yn sicrhau bod y tasgau yn y dosbarth o ddiddordeb i'r plant ac yn eu herio

- Rydym yn ceisio osgoi anghydfod neu gamymddwyn cyn ei fod yn digwydd

    - e.e. rhoi lle penodol i ddisgyblion i eistedd yn y dosbarth
    - arwain y plant i'r neuadd ginio a sicrhau eu bod yn eistedd yn dawel
    - bod yn weladwy ac yn wyliadwrus pan ar ddyletswydd ar yr iard
    - bod yn brydlon ar bob achlysur
    - sicrhau fod ein gwersi wedi eu cynllunio'n drylwyr a'r holl adnoddau yn barod

- Wrth ddelio â phroblemau ymddygiadol rydym yn trafod yr ymddygiad yn hytrach na'r plentyn gan sicrhau nad ydym yn bychanu'r plentyn.

- Rydym yn cymryd cyfrifoldeb am ymddygiad pob disgybl yn yr ysgol gan fod yn deg ac yn gyson.

Relationship, Respect and Behaviour Policy

Ffederasiwn y Ddraig

Our purpose:

Our purpose is to give everyone the opportunity to be the best they can be. We believe that we can achieve much more by working in partnership than by working alone.

Our values:

(D) Celebrating Welshness

(R) Putting family and community first

(A) Encourage kindness, respect and courtesy

(I) To demand excellence

(G) Giving an equal opportunity to all

Our Vision

We will create a pioneering and innovative family of schools, committed to excellence and ensuring that our values underpin everything we do.

We take pride in our culture, our bilingualism and all aspects of being Welsh. By ensuring a complete and full education, giving priority to developing healthy relationships and providing rich experiences we will give every individual the opportunity to be a creative, independent and ambitious learner who co-operates confidently in safe communities.

Creating a bright future

Introduction and objectives

We believe that all children have the right to feel safe and happy in schools that foster kindness, respect and courtesy in order to encourage them to be the best they can be. We work hard to build, maintain and repair relationships within the schools - pupils, staff, governors, families, the community and all external agencies. We are restorative schools and use restorative approaches to ensure consistency. It is important to us that every member of the school community feels a sense of pride in being part of that community, and an important and valued member of the team.

Achieving the objectives

- All members of the school community will be aware of the policy and commit to the objectives and procedures.
- Restorative approaches will always be used when appropriate.
- School rules (agreed rules below) will always be followed in school and in all school activities (eg PTA events, trips, sports activities, after school clubs.)
- The school rules will be displayed around the school.
- We will discuss the school rules with the pupils regularly, to ensure that they understand and remember them.
- Although there are agreed rules for the school, other rules, eg classroom rules, playground rules, physical education rules, lunch hall rules, exist in school.

Agreed rules

- **We will speak Welsh**
- **We will show kindness, respect and courtesy to all**
- **We will respect the school environment and each other's property**
- **We will walk in the school building**
- **We will always use an appropriate level of voice**

Expectations

Adults will:

- ✓ be assertive and calm
- ✓ be consistent and clear
- ✓ follow the steps in 'Positive Relationships in Ffederaiwn y Ddraig' **(Appendix 4)**
- ✓ be fair
- ✓ be observant (eg good and bad behaviour, birthday badge, if child is sad / quiet, body language, effort) and act on the observation
- ✓ all have the same boundaries and high expectations
- ✓ ask for help if needed - this is a sign of maturity, not a sign of weakness.

The children will

- ✓ follow the school rules
- ✓ understand about choices and consequences
- ✓ almost always make the right choices
- ✓ show remorse for doing the wrong thing

Parents will:

- ✓ support the school
- ✓ ask the school to help if there is a problem, not approach other families themselves
- ✓ keep school informed of any home circumstance which may affect their child's behaviour
- ✓ use the complaints procedure if they are not satisfied with the outcomes relating to behaviour

Everyone will:

- ✓ be polite
- ✓ listen to each other
- ✓ show mutual respect
- ✓ set a good example (adults and older children)

The school community will not accept…

From adults:

- × aggressive behaviour
- × inconsistencies
- × arguing with children
- × labeling children, classes or year groups
- × not forgiving children
- × arguing with other adults (parents with staff, parents with parents in view of children, staff with staff)
- × leave a situation where it has not been resolved

From adults and children:

- × bullying
- × back chat or rudeness
- × discourtesy
- × verbal or physical abuse of any kind (including name-calling and fighting)
- × running in the school building
- × showing disrespect to people, property or the environment
- × being in the wrong place at the wrong time on purpose
- × swearing

1. **Restorative Approaches Framework**

We aim to build and maintain positive relationships in order to create a sense of community. When relationships are positive, we are less inclined to harm one another, thereby reducing conflict in the school community. We will aim to work together to solve problems rather than choose to ignore them. We will be consistent in the use of restorative approaches ensuring early intervention to avoid more serious problems.

Build and maintain relationships

All members of staff are expected to use restorative approaches. This means building positive relationships with children, colleagues, parents, guardians and the wider school community.

At the start of a new school year

At the beginning of a school year, a 'class needs' activity is held in each class. The children discuss and decide what they need to do their best in school. The needs should be revisited regularly.

Weekly

We use circles with the children at least once a week. Pupils have the opportunity to discuss wellbeing, and any problems that may arise as well as discussing school work. During these sessions the children have the opportunity to express their opinions and respect other's opinions, building positive relationships and improving cooperation. Teachers lead the circles, but members of the School Council and other pupils are given the opportunity to lead from time to time.

Using Restorative Approaches when conflicts occurs

When children argue all staff are expected to apply the principles of Restorative Approaches when dealing with the issue and we encourage children to use the same strategies.

When talking to children about any incident the conversation should always start with the question 'What happened?' to make sure we understand exactly what has happened. Staff should use the Toolkit **(Appendix 1),** and use the 5-question structure (all or some of the questions, depending on the situation) when dealing with more serious issues:

1. What happened?
2. What did you think? How did you feel?
3. Who has been affected, and how?
4. What do you need to feel better?
5. What do you want to happen now to move forward?

Year 5 and 6 children who are members of the Clustiau Caredig / Llais Llesol teams are prominent members of the restorative team. They listen and discuss children's concerns, offering different ways of solving the problem. If they are unable to deal with the problem they turn to a specific member of staff for advice.

When we meet family members, carers and outside agencies, we use a restorative mindset in our discussions.

2. **Praising good behaviour**

We will notice good behaviour, and give praise to encourage the children to be considerate of others and to comply with the school rules.

- Each class teacher will establish a rewards system in the class eg Dojos, raffle tickets, stickers etc.
- Verbal praise. This is the most effective way of giving praise to a child, which is to show verbal appreciation - by saying 'well done' and 'thank you'.

3. **When behaviour is not acceptable**

If members of staff see behaviour that the school community does not accept, the Toolkit**(Appendix 1)** will be used. Staff will choose the most appropriate strategy depending on the child's ability and age and the nature of the misconduct. One or more strategies can be used at a time. The Toolkit is used at **all** times.

If a child misbehaves, a short sanction may be imposed on the spot - eg asking a child to sit alone to finish their task, clearing up mess created, agreeing follow-up action with the child, asking a child to walk with a member of staff on break / lunchtime duty, ask a child to sit on a bench for a few minutes on the yard, move the child away from his / her friends to eat his lunch. A child should not be forced to stand against a wall so that everyone sees that they have misbehaved. If a child's behaviour is bad enough to send them out of class, a member of the school's senior management team must be called.

Reflection time will be considered a sanction after a more serious incident. Reflection time will be reported to parents.

The behaviour will be categorised depending on the severity of the case. Any misconduct of category 2 and above is considered serious, and category 3 and 3+ very serious. The time for reflection will vary in length, depending on the age of the child and the nature of the incident. SLT members will be responsible for reflection time.

The table in **Appendix 2** shows the different categories of unacceptable behaviour and who is responsible for dealing with the pupils.

When dealing with unacceptable behaviour of Category 2 or above, the Behaviour Monitoring Sheet (**Appendix 3)** must be completed.

[Completing work is not a sanction that is part of this policy. If work needs to be completed and the teacher wants the work to be completed during playtime, then the class teacher will need to stay in class with the child.]

4. **What if a child's behaviour does not improve as a result of the policy?**

If a child's behaviour is causing concern and if following this policy does not have a positive effect on his/her behaviour then we will deal with the child depending on the individual case, usually following the steps in the federation's ALN procedures and seek the support of appropriate services to help the child and family. The policy may be adapted for the child and he/she may

have a personal risk assessment agreed with the class teacher, the Assistant Head - Inclusion and the Head of School. Parents will be involved in this process from the beginning so that the school and parents can support each other to help the child.

5. **Exclusion**

   Welsh Government guidelines, 'Exclusion from schools and pupil referral units' are followed - document number 171/2015, which states the Headteacher's right to exclude a child if he considers it appropriate.

6. **Complaints**

   If parents are not happy with the behaviour management process in the federation, the complaints policy should be followed. Copies of the complaints policy are available from each school office and on the website.

Appendix 1

Toolkit for dealing with unacceptable behaviour

If members of staff see behaviour that the school community does not accept, these guidelines will be followed. Staff will choose the most appropriate strategy depending on the child's ability and age and the nature of the misconduct. One or more strategies can be used at a time. These guidelines are used at **all** times.

Strategy 1 should be used every time a child refuses to comply.

Strategy1 - **Provide guidance and repetition**

If a child does not comply, explain what they need to do by giving a direction - "I need you to _____, thank you", give them time to comply and then repeat to remind. (We do not ask a child to comply eg "will you sit down please" as this gives the child the option to opt out).

e.g. if a child is not doing their work say "I need you to do your work, thank you" and then move away to give them a chance to comply. If this doesn't work remind him/her "remember you need to do your work", give it time and then remind him/her again, and so on.

Strategy 2 - **Practise**

If a child does not comply the correct behaviour should be practised.

e.g. if a child refuses to sit, then say he needs to practise later. Choose a suitable time, for example before going out to play or before going to lunch, and tell the child that he must practise to sit in his chair before going outside. The child must then sit in his chair for a short time before being allowed outside. Choosing the right time is crucial - practising before the child can do something he really wants to do!

Strategy 3 - **Choice**

When a child refuses to do what he is supposed to do give him two choices.

e.g. if a child refuses to do his / her work, then give a choice - either to do the work, or to sit in the reading corner to draw. Offering the right choices is important. There is no point in giving a choice of two things that the child does not want to do, the child must be willing to comply with the second choice ... but it is the teacher who has offered it. Two closed choices must be given, eg to do the work or go to the reading corner to draw, not go to the reading corner to do anything he wants.

Strategy 4 - **Verbal Agreement**

Discuss with the child what is going to happen next - either when he gets a reward or when he refuses to do something.

e.g. “You can draw a picture now, when the timer finishes you need to come and sit at the table. Thank you ”

Strategy 5 - **Reminders**

If a child has difficulty behaving during a particular activity, then remind them of what is expected **before** the activity.

e.g. if a child tends to run to the hall for lunch and shout - “I need you to walk to the hall and talk quietly. Thank you. ”

Strategy 6 - **Say 'well done' or 'thank you'**

Even when a child misbehaves , finding something that can be praised by saying “well done” or “thank you”. For example, if a child is sitting down and refuses to come to the hall for the assembly to say "well done for sitting smartly"

Strategy 7 – **Shine a light**

When the time is right explain to the child that you have noticed what he is finding difficult to do.

e.g. if a child finds it difficult not to hit other children while sitting on the carpet, when doing something else with the child, eg playing with lego, say “I've noticed you have trouble sitting smartly on the carpet ”

Strategy 8 - **".... and now" (rather than 'but')**

If a child has been hitting another child at playtime say "I know what happened during playtime **and now** I need you to come into class and sit quietly"

This shows the child that you have not forgotten about the bad behaviour.

Appendix 2

Categories of Behaviour

Category	1	2	3	3+
Who deals with the situation	**Any adult** investigates and deals with an incident. Refers to a **classroom teacher** if necessary/if there is a concern.	**Progress Leader** following an investigation by **any adult**	**Head of School** (or whoever is responsible for the school in his / her absence) following an investigation by **any adult**	**Headteacher (or whoever is responsible for the school in his absence)** following an investigation by **any adult**
Type of behaviour	• Not listening • Not conforming • Running in the corridor • Playing around in the toilet • Being in the wrong place at the wrong time • Talking on the carpet • Speaking during assembly • Inappropriate playground play • Reply back • Discourtesy (eg name calling, inappropriate language) • Low level verbal abuse • Inappropriate physical behaviour (eg grab, trip, pinch) • Play fighting • If there is an injury, inform both sets of parents.	• Serious or persistent types of Category 1 behaviour • Provoked aggression • Swearing • Verbal abuse (name calling or abuse that includes any racist, sexist, homophobic or disability terminology)	• Unprovoked aggression • Serious swearing • Damage to school property or others' property • Unprovoked physical aggression / violence (including physical bullying)	• Any incident that puts the child or others at risk of serious injury or death
Possible Result	• Using the Toolkit • If there is a concern, record on MyConcern and/or discuss with parents	• Using the Toolkit • If there is a concern, record on MyConcern and/or discuss with parents • Reflection time if appropriate • Record on the Behaviour Monitoring Sheet	• Using the Toolkit • Contacting parents • Recording on MyConcern • Reflection time • Internal exclusion • Exclusion from school • Record on the Behaviour Monitoring Sheet	• Inform parents of affected children • Consider fixed term or permanent exclusion • Seek advice from County experts / officers if required.
	EACH CASE WILL BE DEALT WITH ON AN INDIVIDUAL BASIS			

Appendix 3

Behaviour Monitoring Sheet

Name	Date	Type of behaviour	My Concern (√)	Discuss with parents (√)	Parents' response (if appropriate)	Recorded by

Appendix 4

Healthy Relationships in Ffederasiwn y Ddraig

• We celebrate achievements through praise, use of reward systems and in whole school assemblies.

• We have high expectations and communicate this clearly to the pupils

• We respect everyone's rights and are excellent role models in encouraging pupils to show respect and tolerance for all.

• We are excellent role models in using an appropriate voice level and speaking respectfully and politely to others

- We ensure that pupils move around the school quietly, in an orderly and safe manner
- We make sure that the tasks in the class interest and challenge the children
- We try to avoid disputes or misconduct before it happens, eg -
    - give pupils a specific place to sit in the classroom
    - guiding the children to the lunch hall and ensuring that they sit quietly
    - being visible and vigilant when on yard duty
    - being punctual at all times
    - ensuring our lessons are well planned and fully resourced
- When dealing with behavioural problems we discuss the behaviour rather than the child and ensure that we do not humiliate the child.
- We take responsibility for the behaviour of all pupils in the school with fairness and consistency.